

## **ATODIAD C: GWEITHDREFN CWYNO**

### **CEFNDIR**

1. Ein bwriad yw sicrhau bod gan bob aelod fynediad at weithdrefn gwyno sy'n medru helpu delio gydag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'u haelodaeth mewn modd teg a phrydlon. Gwnawn bob ymdrech i ddatrys cwynion mewn modd anffurfiol ac adeiladol. Serch hyn, os ydych yn dymuno cyflwyno cwyn ffurfiol ysgrifenedig, byddwn yn cynnal ymchwiliad i'r gwyn honno, yn rhoi canlyniad ysgrifenedig i chi, ac yn rhoi hawl i chi apelio os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad.
2. Ni ddylai'r Weithdrefn Gwyno hon gael ei defnyddio i gwyno am unrhyw sancsiwn disgyblu. Os ydych yn anhapus gydag unrhyw sancsiwn disgyblu, dylech gyflwyno apêl o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu.
3. Mae gennym Bolisi Diogelu ar wahan a all gael ei ddilyn os ydy eich cwyn yn ymwneud â mater diogelu plant.
4. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl aelodau yn ogystal ag unrhyw drydydd parti sydd yn dymuno cyflwyno cwyn sydd yn ymwneud â'n haelodau.
5. Er mwyn bod gyfystyr â chwyn a all gael ei gwyflwyno fel cwyn ffurfiol o dan y polisi hwn, rhaid i'r gwyn ymwneud â'ch aelodaeth chi o YesCymru. Ar y cyfan, ni fydd cwynion sydd yn ymwneud ag anghydfod neu anghytundeb rhwng aelodau unigol, ond nad yw'n ymwneud ag aelodaeth gyda YesCymru, yn medru bod gyfystyr â chwyn a all gael ei gyflwyno fel cwyn ffurfiol o dan y polisi hwn.

### **CAM 1 – CWYN ANFFURFIOL**

6. Mae modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn gyflym ac yn anffurfiol trwy drafod gydag aelod neu aelodau eraill. Os nad ydych yn medru gwneud hyn, neu os ydy gwneud hyn yn amhriodol o dan yr amgylchiadau, dylech ddilyn y camau ffurfiol isod.

### **CAM 2 – CWYN FFURFIOL**

7. Os nad ydy'r mater wedi'i ddatrys yng Ngham 1, neu os ydych yn dymuno cyflwyno cwyn ffurfiol, dylech nodi eich cwyn yn ysgrifenedig a'i ddanfon at [cwynion@yes.cymru](mailto:cwynion@yes.cymru).
8. Dylai eich cwyn ysgrifenedig nodi natur eich cwyn, unrhyw ffeithiau perthnasol, dyddiadau, ac enwau unigolion sy'n ymwneud â hi fel y gallwn ymchwilio iddi.
9. Bydd eich cwyn yn cael ei ymchwilio gan aelod staff cyflogedig a phrofiadol. Y Pwyllgor Canolog fydd yn penderfynu'n derfynol mewn cyfarfod wedi ei gyfansoddi'n briodol. Wedi hynny byddwch chi'n derbyn ymateb ysgrifenedig i'ch cwyn, fydd yn cynnwys unrhyw argymhellion neu ganlyniadau, fel arfer o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r gwyn. Os bydd eich cwyn yn mynnu ymchwiliad sylweddol, efallai bydd hi'n cymryd yn hirach na hyn i chi dderbyn ymateb ysgrifenedig.
10. Os mai am aelod o'r Pwyllgor Canolog mae eich cwyn, ni fydd yn gallu bod yn rhan o unrhyw gyfarfod Pwyllgor Canolog tra bo'r mater yn cael ei drafod a byddai angen iddynt adael y cyfarfod.
11. Os bydd angen cymryd unrhyw gamau disgyblu yn erbyn unrhywun o ganlyniad i'ch cwyn, bydd delio â hynny o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu.

### **CAM 3 - APÊL**

12. Os nad ydych yn hapus gyda chanlyniad eich cwyn, gallwch ddanfon apêl yn ysgrifenedig i [apeliadau@yes.cymru](mailto:apeliadau@yes.cymru), yn nodi eich seiliau penodol dros apelio, o fewn 7 diwrnod o'r dyddiad y cafodd y penderfyniad ei ddanfon atoch.
13. Bydd apêl yn cael ei drin yn ddiuedd gan Bwyllgor Apêl, ni fydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Canolog ar y Pwyllgor Apêl. Bydd y Pwyllgor Apêl yn ymchwilio i'ch rhesymau penodol dros apelio a bydd ymateb ysgrifenedig i'ch apêl, fydd yn cynnwys unrhyw argymhellion neu ganlyniadau, yn cael ei ddanfon atoch fel arfer o fewn 28 diwrnod o dderbyn eich apêl. Os ydy eich apêl yn mynnu ymchwiliad sylweddol, efallai bydd hi'n cymryd yn hirach na hyn i chi dderbyn ymateb ysgrifenedig.
14. Dyma ddiwedd y weithdrefn a does dim hawl bellach i apelio.

### **CYFRINACHEDD**

15. Dylech drin yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth sy'n cael ei gyfathrebu i chi ynghlwm â'ch cwyn.